


papur



priordy



**I'R ARGLWYDD CENWCH LLAFAR GLOD
A GWNEWCH UFUDD-DOD LLAWEN FRYD;
DOWCH O FLAEN DUW Â PHERAIDD DÔN,
DRIGOLION DAEAR FAWR I GYD.**

**Edmwnd Prys (1544-1623)
Caneuon Ffydd 75**

Gweler yr erthygl ar y tudalen blaen y tu mewn

**Rhifyn 362
PAPUR IONAWR 2023**

Croeso i Gegin y Gweinidog



Heddiw, edrychwn gyda'n gilydd ar 'Rysáit y Flwyddyn Newydd'

1. Cymerwch ddeuddeg mis llawn. Gwnewch yn siŵr eu bod yn hollol rydd oddi wrth hen atgofion o chwerwder a chasineb. Glanheuwch nhw'n dda gan gael gwared ar bob ysfa i lynu at hunanoldeb a bychander.
2. Sicrhewch bod y misoedd hyn wedi eu rhyddhau o'r gorffennol gan wneud yn siŵr eu bod yn ffres, yn lân fel pan ddaethant gyntaf o ystordy mawr Amser.
3. Torrwch y misoedd hyn yn 30 neu 31 o rannau cyfartal. Peidiwch â cheisio llanw'r cyfan ar yr un pryd (mae cymaint yn difetha'r cyfan fel hyn) ond paratowch un dydd ar y tro.
4. Arllwyswch i mewn i bob diwrnod rannau cyfartal o ffydd, amynedd, dewrder, gwaith (mae rhai pobl yn hepgor y cynhwysyn hwn ac felly'n difetha blas y gweddill), gobaith, ffyddlondeb, rhyddfrydedd, caredigrwydd, gorffwys (mae gadael hyn allan fel gadael yr olew allan o ddresin salad) gweddi a myfyrdod.
5. Rhowch ddracht o adduned ym mhob un ar gyfer blas.
6. Rhowch un llond llwy de o hwyliau da, diferyn o hwyl, pinsied o ffolineb, taenelliad o hamdden, a llond cwpanaid o hiwmor da.



A dyna ni. Blwyddyn Newydd Dda i chi!



GWEDDI DECHRAU'R FLWYDDYN

Gweddiwn

O Dad,
Tywys ni ar hyd y ffordd,
nid yn ôl ein chwantau ni ond yn ôl d'ewyllys di,
nid yn ôl ein gwendid ni ond yn ôl dy gryfder di.

O Dduw,
bywha ni yn ein haddoliad,
cadarnha ni yn ein gwasanaeth i eraill
a grymusa ni mewn tystiolaeth.



Amen



DARLLENIADAU



Mis Ionawr	Darlenniad
Wythnos 1	Luc 2: 15-21
Wythnos 2	Mathew 3: 13-17
Wythnos 3	Ioan 1: 29-42
Wythnos 4	Mathew 4: 12-23
Wythnos 5	Mathew 5: 1-12

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

JANET A GWYNFOR DAVIES

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

PANED A SGWRS


Bore Mercher - 10.30
Gwesty'r Llwyn Iorwg



18 Ionawr 2023
15 Chwefror 2023
22 Mawrth 2023
26 Ebrill 2023



Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr
(*Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan*)



MEWN LLAI NA 2!


Yn dechrau cyn bo hir – cyfres newydd o fyfyrddau
byrion digidol gyda Tudur Dylan Jones. Mae'n rhan
o ddarpariaeth ddigidol ein heglwys dan nawdd
Rhaglen Arloesi a Datblygu Undeb yr Annibynwyr
Cymraeg.

CALENDR ADFENT RHITHIOL YR OFALAETH

Diolch i
Angharad a Ieuan Wyn
am olygu'r Calendr ac i bawb a gymerodd ran.

Bu'r fenter yn llwyddiant mawr unwaith eto
gyda rhwng 300 a 700 yn gwyllo'n
ddyddiol!

Ardderchog



GYDA'N GILYDD

Cylchlythyr Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin
Nadolig 2022

Ar gael nawr!

DRAMA'R GENI

ROEDD yr awyrgylch arbennig iawn yn y Priordy ar Nos Sul, 4 Rhagfyr. A ninnau'n teimlo byrder y dydd ac oerfel y nos wrth gyrraedd roedd hi'n braf dod i mewn i gapel



cynnes a chlod dan olau kannwyll a'r llusernau, y Goeden Nadolig a Thorch yr Adfent yn eu lle ger y pulpud.

Hwn oedd ail Sul yr Adfent a chynheuwyd kannwyll Heddwch y Dorch gan ein Gweinidog wrth i ni ganu:

Mae eto yn Adfent a'r gannwyll o hyd,
Goleuo mae hwn yn nhywyllwch y byd;
Mae'n gannwyll ein Heddwch, ac Iesu, Fab Duw
Yn D'wysog tangnefedd i'n dysgu i fyw.



Peth gwyh yw creu awyrgylch ond rhagorach fyth yw ei gynnal, a dyna'n sicr a wnaeth y criw o bobl ifanc wrth gymryd yr awenau. Criw mawr ohonynt hefyd, criw PIP, sef Pobl Ifainc y Priordy a braf oedd eu gweld yn cerdded i mewn i flaen y capel, pob un yn cludo kannwyll.

Ydych chi'n cofio cymryd rhan yn nrama'r geni slawer dydd? Cawsom ein hatgoffa gan y criw ifanc am y cyfnod pan oeddent yn blant oed ysgol gynradd yn cael y cyfle yn y capel i actio yn Nrama'r Geni bob Nadolig - atgofion am y gwisgoedd ac ambell dro trwstan a'r



ymarferion heb fawr o siâp arnyn nhw'n aml. Trwy ryw ryfedd wyrth roedd y cyfan yn dod at ei gilydd ar y dydd!

Ond y tro hwn trwy leisiau aeddfed ein pobl ifainc y clywsom am ddrama a chymeriadau Stori'r Nadolig, yn enwedig yr angylion y derbyniodd Mair, Joseff, y bugeiliaid a'r doethion negeseuon oddi wrthynt.

Tra bo'r angylion yn bwysig yn hanes y Nadolig, diolch i'r criw am ddweud eu bod yn para i fod felly heddiw hefyd. Nid angylion mewn

gwisgoedd gwyn yw'r rhain ond pobl o'n cwmpas sy'n cario neges Duw -teulu, ffrindiau, athrawon ac arweinwyr yn y capel a'r Ysgol Sul. Diolch amdanynt ac am gadw'n hadnabyddiaeth o Iesu'n fyw!

Clywsom PIP yn diolch hefyd am dymor yr Adfent, Gŵyl y Geni a'r Baban Iesu ac m lawenydd ac ysbryd y Nadolig. Ond yn amserol iawn dyma nhw'n ein siarsio i beidio ag anghofio yng nghanol ein digonedd yr anghenus nac ychwaith y gofyn am dangnefedd yn ein byd ni heddiw.



Canwyd y carolau canlynol yn ystod y gwasanaeth: Wele cawsom y Meseia (441), Of'enaid cân, mawrha yr Arglwydd Dduw (433), Sisialai'r awel fwyn (474) Pan oedd bugeiliaid gyda'u praidd (438) Ganol gaeaf noethlwm (466), Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod (477) ac Engyl glân o fro'r gogoniant (447).

Mae'n dyled yn fawr i Tomos, Osian, Gwenllian a Siwan, Erin, Harri, Jac, Elis, Marged, Gwenan, Anna, Ethan, Mac, Caleb, Miriam, Beca, Mali, ac Efa am arwain ein gwasanaeth. Diolch am eu gwaith graenus a chlir wrth iddynt lefaru, darllen o'r Beibl a chyflwyno gweddïau. Diolch hefyd i Beti-Wyn am sgriptio a pharatoi sleidiau i gyd-fynd â phob cam o'r gwasanaeth ac am yr holl drefnu. Diolch yn ogystal i Janet Davies wrth yr organ ac am help llaw Ffion ac Alison nid yn unig gyda'r casglu ond hefyd y goleuadau bach a'r llusernau a oedd yn addurno'r capel.



WRTH adael y capel a dychwelyd adre roedd ein gwerthfawrogiad yn fawr am wasanaeth a lwyddodd i greu ynom yr ymdeimlad sicr hwnnw na all yr holl dywyllwch sydd yn ein hamgylchynu yn y byd y dyddiau hyn fyth orchfygu'r goleuni – diolch i Iesu, Brenin nef a daear lawr.

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys *Papur Priordy*)

GWASANAETH NADOLIG POBL IFAINC Y PRIORDY



COFIO AMNEST

Ar ail Sul yr Adfent, daeth tasg ymarferol i'n rhan yn ystod ein Hoedfa Gymun, sef ceisio helpu i ddod â gobaith i eraill drwy lofnodi cardiau yn enw Amnest Rhyngwladol.



Carfan bwyso annibynnol byd-eang yw Amnest Rhyngwladol sy'n ymgychu dros ryddhad pob carcharor cydwybod (sef pobl sy'n cael eu carcharu neu'n cael eu camdrin oherwydd eu credoau gwleidyddol neu grefyddol.

Cofiwyd yn arbennig y tro hwn wrth lofnodi'r cardiau am y canlynol:

Dorgelesse Nguessan



Mam sengl a thriniwr gwallt o Cameroon. Cafodd ei harestio a'i charcharu am fod ar ei phrotest heddychlon gyntaf erioed dros well dyfodol i'w theulu a'i gwlad. Mae wedi'i dedfrydu i bum mlynedd o garchar

Aleksandra Skochilenko



Cafodd ei harestio am wrthwynebu ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Rhannodd wybodaeth am yr ymosodiad. Mae wedi'i charcharu nawr mewn carchar Rwsiaidd mewn amgylchiadau ofnadwy ac yn wynebu hyd at ddegawd dan glo.

Boed i'r personau hyn a phawb arall sy'n dioddef profiadau tebyg fod yn ein gweddïau'r dyddiau hyn. Diolch i Amnest am sbarduno'r meddwl.

Oedfa Nadolig y Priordy 11 Rhagfyr 2022



MAE yna gryn edrych ymlaen bob blwyddyn at wasanaeth Nadolig y Priordy yng nghwmni plant yr Ysgol Sul ac eleni, ar ôl bwlch o dair blynedd, roedd y cyffro'n fwy nag erioed. Ac ni chafodd neb mo'u siomi. Thema'r oedfa eleni oedd Y Nadolig - 'Er gwaetha pawb a phopeth, ry'n ni yma o hyd!'. Yn dilyn gweddi agoriadol a gair o groeso gan Beti-Wyn, ymunodd y gynulleidfa i gyd-ganu'r hen ffefryn, 'O deuwch ffyddloniaid'.



Mewn cyflwyniad gan Cian, clywsom am gyffro'r Nadolig yn ein hoes ni, gyda charolau a goleuadau - amser sy'n pwysleisio gobaith a heddwch. Mewn cyferbyniad, edrych yn ôl wnaeth Olwen a Luned i sôn am y Nadolig cyntaf, gan ddefnyddio'r llythrennau sy'n sillafu'r gair **NADOLIG**. **N** am y **Nos**weithiau oer pan fyddai'r bugeiliaid allan yn gwarchod eu defaid. Un noson cawsant **Addewid** rhyfeddol gan Dduw. Ymateb y bugeiliaid i'r addewid hwnnw oedd **Dathlu** neges yr angylion bod yr Iesu wedi ei eni, ac mae'r dathlu hwnnw wedi parhau o **Oes** i oes, ac rydyn yn dal i ddathlu heddiw. Gyda geni'r baban Iesu daeth goleuni Duw i'n byd, yn **Lamp** i oleuo'r ffordd i ni. Mae'r **I** am Iesu Grist, fab Duw, a anwyd mewn **Gwely** Gwair, yn y preseb ym Methlehem. Yn y weddi ddilynol diolchodd Noa i Dduw am anfon Iesu i'r byd gan nodi pa mor bwysig ydyw ein bod yn cofio am yr angylion, y bugeiliaid a'r doethion a realiti'r Nadolig cyntaf.



Yn dilyn perfformiad y Parti Bechgyn o 'Mae gwahoddiad inni heddiw i ganu gŵyl', aethpwyd â ni yr holl ffordd i ... na, nid i Fethlehem, ond i Qatar! Yno yn ein disgwyl, roedd Iestyn, Gwern a Gwilym yn edrych ymlaen yn eiddgar at y pêl-droed, ond roedd gan Elliw a Lliwen fwy o ddiddordeb mewn mynd i siopa! Hefyd yn Qatar roedd Dafydd Iwan a dyma luniau ohono'n ymddangos ar y sgriniau yn y capel yn canu 'Yma o Hyd'. Ymunodd y plant a'r gynulleidfa i ganu'r gân sydd, er bron yn ddeugain oed, yn fwy poblogaidd nag erioed. Ond mae yna gân arall wedi cael ei chanu yn hirach fyth sef y gân am enedigaeth Iesu. Mae'n

hen hen stori ond yn dal i swnio'n newydd bob blwyddyn, ac rydyn ni yma o hyd yn cofio'r hanes.

Wedi i'r gynulleidfa ganu'r garol 'Ganol gaeaf noethlwm' dyma dri gŵr doeth (Gwydion, Meredydd ac Osian) yn cyrraedd y llwyfan, a rhyw gymeriad go annymunol a alwai ei hun yn Herod yn ymddangos ar y sgrin. Doedd e ddim yn hapus o gwbl fod brenin newydd wedi'i eni a gorchmynnodd ef i'r doethion fynd i chwilio amdano. Wrth iddyn nhw adael daeth y Parti Merched i gyflwyno cân yn croniclo hanes geni Iesu, 'Deffro ddaear, llawenha.'



Yn yr olygfa nesaf roedd Joseff a Mair (Ifan a Cadi) yn chwilio am rywle i aros, ond yn ôl Gŵr y Llety (Gwilym), doedd 'dim vacancies'!. Serch hynny fe gynigiodd y stabl iddyn nhw. Ac wedi i'r gynulleidfa ganu'r garol 'Pan oedd bugeiliaid gyda'u praid', dyma griw o fugeiliaid bywiog a byrlymus yn ymddangos (Rhys, Aneirin, Deio, a Sianco).

Roedden nhw'n oer ac yn ofnus, oherwydd uwch eu pennau roedd lluo o angylion (Beca, Myfi, Nel, Greta Fflur, a Cadi Wyn). Cyhoeddodd yr angylion y newyddion da fod y baban Iesu wedi'i eni. Ymunodd criw o fugeiliaid bach (Brynmor, Hedd, Bedw, Noa, Brychan ac Ilan) ac angylion bach (Greta Wyn, Martha Nel, Miriam, Nyfain a Gwenlli) â'r gweddill i gyd-ganu, yn llawn asbri, 'Sêr y nos yn gwenu' a 'Dyma ni'n mynd i Fethlehem', cyn i'r doethion gyrraedd gyda'u rhoddion.

WRTH i bawb ymgasglu o amgylch y preseb i ganu'r gân olaf a dymuno Nadolig llawen i bawb, roedd hi'n hyfryd gweld y plant yn llenwi blaen y capel. Roeddent yn amlwg wedi mwynhau ail-gyflwyno'r hanes, ganrifoedd yn ddiweddarach, gan ddangos ein bod yn parhau i ddathlu genedigaeth Iesu a'n bod ni, chwedl Dafydd Iwan, yma o hyd. Diolch o galon i Jayne am gydlynw'r cyfan, i Angharad ar y piano, ac i Iwan ar yr organ, ac i'r plant i gyd a wnaeth eu gwaith mor raenus ac yn llawn hwyl a miri. I gloi'r oedfa unwyd i ganu 'Clywch lu'r nef' a chafwyd casgliad at waith yr Ysgol Sul. Ar ôl yr holl waith roedd y plant yn fwy na haeddu'r parti Nadolig ar y diwedd. Roedd hi'n oedfa gwerth aros dair blynedd amdani, ond gobeithio wir na fydd yn rhaid aros tair blynedd arall am yr un nesaf!



GWASANAETH NADOLIG Y PRIORDY



Pedwerydd Sul yr Adfent

Ers blynyddoedd bellach mae capeli'r Ofalaeth wedi dod at ei gilydd i gydaddoli ar y Sul cyn y Nadolig. Yn anffodus, bu rhaid rhoi heibio'r traddodiad yn ystod Covid-19 ond braf unwaith eto oedd ailafael yn y drefn arferol yn 2022!



Yn y bore yng Nghana

Denodd yr oedfa fwy nag arfer y tro hwn. Ar ddechrau'r oedfa cynheuwyd y bedwaredd gannwyll ar Dorch yr Adfent gan ein Gweinidog a honno'n cynrychioli Cariad. Yn ei myfyrdod cydiodd ein Gweinidog mewn nifer o draddodiadau hynafol y Nadolig, fel yr uchelwydd a'r goeden, er enghraifft, gan esbonio sut y cawsom eu Cristioneiddio a'u harwyddocâd i ni fel dilynwyr Iesu heddiw. Cawsom hefyd gyfle i ailedrych ar un o'n cyfraniadau i'n Calendr Adfent Rhithiol a gweld dawn greadigol Nia Ward (Bancyfelin) ar waith unwaith eto wrth iddi addurno'r tŷ gyda phlanhigion o'r ardd gan ddangos i ni eu perthynas â Christnogaeth a'r Nadolig.

Roedd y darlleniad yng ngofal Alun Charles (Y Priorddy) a chyflwynodd Eirian Thomas (Bancyfelin) a Non James (Cana) y weddi. Roedd Mair Jones wrth yr organ a'r cyhoeddwr oedd Marlene Jones.

Yn dilyn yr oedfa, cawsom fwynhau paned a briwgacs gyda'n gilydd a diolchodd Sulwyn Thomas, Cadeirydd Swyddogion yr Ofalaeth ar ein rhan ni oll i'r sawl fu'n paratoi

Yn yr hwyr ym Mancyfelin

Un o arferion pwysicaf Capel Bancyfelin adeg y Nadolig yw cynnal gorymdaith drwy'r pentref gan aros yma ac acw i gyflwyno carol, darlleniad a gweddi. Daw'r gymuned drwy'r arfer hon, i weld fod eglwys fyw yn gwasanaethu'r gymdogaeth a bod y neges Gristnogol yn parhau i fod yr un mor berthnasol yn ein dyddiau ni. Yn anffodus, eleni, ac am y tro cyntaf erioed, doedd y tywydd garw ddim o'n plaid a bu rhaid gohirio'r daith. Ond nid rhai i ddigalonni yw aelodau

Bancyfelin a pharhawyd i gynnal oedfa dan olau kannwyll yn y capel ei hunan.

Y llywydd oedd ein Gweinidog ac yn ystod y gwasanaeth aethpwyd ati i gysylltu pob llythyren yn y cyfarchiad poblogaidd *Nadolig Llawen* â Stori'r Geni. a hynny'n ein helpu i ddeall gwir ystyr yr Ŵyl, sef y newyddion da o lawenydd mawr a ddaeth i'r holl fyd drwy eni'r Meseia ym Methlehem.

Cyhoeddwyd y carolau gan bobl ifanc yr eglwys, Gwawr, Emyr, Ben, Ffion, Cai a Rachel. Cymerwyd rhan gan dri o deuluoedd yr eglwys, sef Teulu'r Plas, Teulu Meidrim a Theulu James. Roedd Angharad Jameson wrth yr organ.



Daeth Siôn Corn ar ymweliad ar ddiwedd yr oedfa. Mwynhawyd mins peis a gwin poeth - diolch i Veronica a Carwen am y gwin. Mwynhaodd y plant de parti.

Diolchwyd yn gynnes i bawb a gymerodd ran ym mhob rhyw fodd gan Sulwyn Thomas.

Epilog Noswyl Nadolig

Dyma enghraifft o flaengaredd a ddechreuodd yn ddigidol a rhithiol yn ystod y pandemig ac sydd wedi parhau ers hynny. Bu'n gyfle i ni ymdawelu a pharatoi ar gyfer dathlu dyfodiad Crist i'n byd. Diolch i'n Gweinidog am ein harwain drwy ddarlleniadau a gweddïau ac am baratoi cyfle i ni glywed a mwynhau sawl carol berthnasol. Cofiwyd yn ein gweddïau am bobl sy'n dioddef o ganlyniad i ormes a thrais, y rhai sydd mewn ysbyty a chartref a theulu galar. Gwerthfawrogwyd y cyfle a gawsom i'n darparu'n ysbrydol ac i ryfeddu o'r newydd at Dduwdod mewn baban yn dod i'r byd.



Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at: gyfundeb.com

GWASANAETH NADOLIG Y PRIORDY




PLYGAIN 2022

Un o'r traddodiadau Nadoligaidd unigryw i Gymru sy'n dal ei dir o hyd yw'r Gwasamaeth Plygain ac mae'n diolch yn fawr i Ferched y Wawr am sicrhau hynny yng Nghaerfyrddin



Ar Nos Sul 11 Rhagfyr, 2022 cynhaliwyd Gwasanaeth Plygain y Mudiad yn y Priordy, Caerfyrddin. Mae'n dda gallu dweud bod y noson hon yn rhan annatod o weithgarwch y Nadolig yn ein tref bellach. Da oedd gweld cynulleidfa deilwng yn bresennol a phrofi cynhesrwydd y capel a hithau'n ddigon oer a gaeafol y tu allan.



Estynnwyd gair o groeso i bawb gan y Parchedig Beti-Wyn James a gynheuodd y drydedd gannwyll ar Dorch yr Adfent sy'n dynodi Llawenydd.

Cafwyd eitemau amrywiol a diddorol ar gân, yn llafar ac yn offerynnol gan gan Griw

Llangynnwr, Côr Meibion Caerfyrddin, Capel Elim, Capel y Tabernacl, Clybiau Ffermwyr Ifanc, yr Ysgol Farddol, Côr Tonic, Meibion y Priordy, Uwch Adran yr Urdd, Capel y Babell, Merched y Priordy, Capel Penuel a Chôr Seingar. Canwyd tair carol gan y gynulleidfa i gyfeiliant Iwan Evans wrth yr organ. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchedig Beti-Wyn James.

Aeth yr arian a godwyd drwy werthiant y rhaglenni at Eisteddfod yr Urdd, Sir Gaerfyrddin 2023.

Bu'n oedfa fendithiol iawn a graen ar gyfraniad pob un a gymerodd ran.

Y newyddion da yw bod y Plygain yn mwynhau adfywiad mewn sawl rhan o Gymru'r dyddiau hyn. Mae casgliad newydd o Garolau Plygain Cymraeg, ynghyd â hanes yr hen garolwyr, wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar, sef *Seiniwn Hosanna* - diolch i'r golygyddion Arfon Gwilym a Sioned Webb. Diolch eto i Ferched y Wawr am gadw'r fflam ynghyn yn ein tref ni!



GWASANAETH NADOLIG Y PRIORDY



BORE'R NADOLIG YN Y PRIORDY

BRAF oedd croesawu teuluoedd yr Ofalaeth a pherthnasau a chyfeillion o bell ac agos i'r gwasanaeth ar y bore arbennig hwn a hynny am y tro cyntaf ers tair blynedd! A mwy braf fyth oedd gweld llawr y capel yn gyttforddus lawn!

Goleuwyd canhwyllau Torch yr Adfent, gan gynnwys yr un yn y canol y tro hwn, sef Cannwyll Crist, Goleuni'r Byd. Gwnaethpwyd hynny gan Deuluoedd Catrin Gwyn, Llinos Jones. Carys Morgans, Mwynwen Jones a Llinos Roberts. Wrth wneud hynny cydganwyd *Cynhwyllau'r Adfent*, gan Robin Gwyndaf ar y dôn *Preseb*, pob pennill yn cynrychioli agwedd ar genhadaeth Iesu,




Cawsom ein harwain yn ystyrlon a graenus i ryfeddod y Nadolig gan Gareth a Steffan Jones yn darllen cerdd Tudur Dylan Jones – *Nadolig Mewn Rhifau* ac Elin WynJames yn darllen o Efengyl Luc am enedigaeth Iesu (2:1-7). Roedd Meinir Lloyd wrth yr organ.

Hyfryd oedd rhannu peth o lawenydd ac asbri'r plant wrth iddynt ddangos i ni rai o'r anrhegion a gawsant yn gynharach yn y bore neu yn oriau mân y bore yn wir!

Tynnodd ein Gweinidog sylw'r plant wedyn at Goeden Nadolig hardd y Priordy gan ofyn iddynt beth yw'r pwysicaf sydd arni. Cafodd amryw o atebion da a diddorol ond daethpwyd i'r casgliad mai'r stand, yr hyn sy'n dal y goeden yn gadarn sydd bwysicaf. Yn yr un modd, Iesu sydd bwysicaf i ni mewn bywyd. Fe yw'r un sy'n rhoi sefydlogrwydd i ni.

DIOLCH

am fore mor ysbrydoledig a chael bod yn rhan o wasanaeth a chynulleidfa sy'n dal i dyfu o flwyddyn i flwyddyn. Bu'n ddechrau da i'n dathliadau ar ddiwrnod mor rhyfeddol.



Te Prynhawn

**Pnawn Sul, 29 Ionawr 2023 am 4 o'r gloch yn y
Llwyn Iorwg.
Pris £9**



**Siaradwr gwadd,
Peter Hughes Griffiths
yn traddodi ar 'Merched yn fy mywyd'!**



*Enwau ar y daflen ar yr hysbysfwrdd yn y cyntedd os ydych yn
bwriadu dod, os gwelwch yn dda.*

CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN

CWRDD CHWARTER

Dydd Iau, 9 Mawrth 2023

Capel Smyrna

Y Gynhadledd am 10.30

Cyfarfod y prynhawm am 1.30

Croeso i bawb

CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY

Nos Fercher 8 Chwefror 2023 am 7.30

yn y Festri



**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod,
yna rhwch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn
dda**

**CWRDD DIACONIAID A BLAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR
YR OFALAETH**

Nos Fercher 22 Mawrth 2023 am 7

Yn y Priordy

GWASANAETH NADOLIG Y PRIORDY



IFANC@PRIORDY

GROESO 2023. BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB!

DIOLCH

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch am eich gwaith ardderchog yn ein gwasanaeth Nadolig ac yng ngwasanaeth PIP. Roedd yn hyfryd medru cynnal gwasanaethau Nadolig unwaith eto yn dilyn y cyfnod clo. Mae lluniau o'r gwasanaethau mewn man arall yn y papur hwn. Diolch i'r rhieni am bob cymorth ac yn arbennig i Jayne am gyd-lynu'r cyfan!



TYMOR NEWYDD


Mae tymor newydd yr Ysgol Sul yn cychwyn yn ystod y mis a nifer o bethau cyffrous wedi eu trefnu. Mae'r Gwasanaeth Gŵyl Dewi yn y Priordy eleni ar fore Sul, 26 Chwefror!

CALENDR YR YSGOL SUL

Ionawr 1 – Oedfa Deulu
Ionawr 8 – Cwrdd Plant a Phobl Ifanc
Ionawr 15 – Ysgol Sul
Ionawr 22 – Ysgol Sul
Ionawr 29 – Ysgol Sul

2023

Helo??
Mae angen eich
help arnaf i
gerdded o 2022
i 2023



CHWILOTAIR LLYTHYREN 'G'

E	G	W	G	A	D	G	C	E	U	H	A
Y	W	L	W	H	E	O	T	Y	G	G	E
R	Y	A	E	T	S	L	G	D	Y	E	G
O	N	G	I	O	F	E	E	A	F	N	W
W	F	A	T	G	Y	U	T	E	H	E	R
T	Y	G	H	L	F	N	H	L	C	S	A
S	D	W	W	O	A	I	S	I	R	A	I
G	A	A	Y	G	H	I	E	G	O	R	G
O	U	R	R	G	C	D	M	L	G	E	E
L	G	C	G	I	U	D	A	G	G	T	E
I	Y	H	T	D	R	E	N	O	W	N	N
A	I	A	F	E	O	W	E	I	A	W	I
T	O	E	E	O	G	G	A	W	S	O	E
H	U	A	A	N	G	E	N	E	S	I	S

GETHSEMANE, GORUCHAF, GWYNFYDAU, GIDEON,
 GENESIS, GRAS, GILEAD, GORCHFYGU, GENESARET,
 GWAS, GWRAIG, GALW, GOLGOTHA,
 GWEITHWYR, GWEDDI, GWARCHAE, GOLIATH,
 GOLEUNI

HWYL FAWR AM Y TRO! BETI-WYN

GWASANAETH NADOLIG Y PRIORDY



Oedfa Bore'r Nadolig Radio Cymru 2022
gyda'r

**Parchedig Beti-Wyn James, a Phobl Ifanc a Rhieni Eglwys
Gofalaeth Y Priordy, Caerfyrddin, Cana a Bancyfelin**

Mae hanes geni Iesu yn un cyfarwydd i ni ond diolch i oedfa Bore'r Nadolig ar Radio Cymru am ddangos i ni fel mae'n parhau i brocio'r meddwl a chynnig golwg newydd ar bethau.

Cymerwch, er enghraifft, ŵr y llety ym Methlehem. Mae'n cael ei ddilorni ambell waith ond gwnaeth ei orau dros Fair. Roedd pob lle yn llawn oherwydd y cyfrifiad Rhufeinig, ond gwnaeth y gŵr bob ymdrech i sicrhau preifatrwydd a man cysurus i Fair i eni ei baban yn y stabl yn hytrach nag yng nghanol bwrlwm y llety. Ymatebodd y gŵr yn sensitif i'r amgylchiad a galluogi Mair i gadw ei hurddas. Ac oni ddylen ni heddiw wneud pob ymdrech i helpu pobl i gadw eu hurddas drwy gefnogi elusennau, ymgyrchu a lobïo dros degwch a chyfiawnder i bawb?



Meddylwch wedyn am fan gorwedd y baban, y preseb. Mae'r cyfieithiad yn fersiwn beibl.net yn gollwng y gair hwnnw ac yn defnyddio '*cafn i fwydo anifeiliaid*' yn ei le. Mae hynny'n rhyw rhagdybio mai un a fyddai'n byw fel ni ac ymhlith pobl fel ni fyddai Iesu – un yn profi'r un heriau, yr un gofidiau, yr un chwantau a'r un amgylchiadau y mae'r person cyffredin fel chi a fi yn eu profi. Ac wrth gwrs, wrth feddwl am bren y preseb fe feddylw'n am bren y Groes. Does dim modd gwahanu Bethlehem a Chalfaria ble aberthodd Iesu drosom.

A dyna i chi'r bugeiliaid, y cyntaf i glywed y newyddion syfrdanol fod y Meseia wedi'i eni. Yn ddiweddarach y daeth y doethion. Pobl go dlawd oedd y bugeiliaid yn cyflawni gwaith digon anodd ac, o ganlyniad, yn cael eu hystyried yn bobl ar wahân i bawb arall ac yn sicr nid yn bobl dduwiol. Aethant ar unwaith i Fethlehem a dychwelyd oddi yno'n bobl

wahanol. Ac oni ddylai ymweld â Bethlehem a syllu ar Iesu yn y preseb trwy lygaid carol a darlleniad a gweddi, a thrwy lygaid ffydd beri i ni hefyd adael yr Ŵyl eleni yn bobl wahanol?

Mae yna wirionedd mawr yng ngolygfa syml y Nadolig cyntaf hwn. Gwelwn ynddo ddarlun o ddynoliaeth yn ei gwahanol ffurf – caredigrwydd, a thlodi a digartrefedd a ffoaduriaeth yn ogystal â chadwraeth ond hefyd ddarlun o'r Duwdod - Creawdwr popeth, Awdur y Gair, Brenin y Bydysawd, yn dod i gwrdd â'i bobl. Daeth i ddod yn un ohonyn nhw'r Nadolig cyntaf ac mae'n awyddus i fod yn un ohonon ni heddiw hefyd. Mae'n dweud wrth bob un ohonom: *'Fe fyddwn yn dwlu cerdded taith bywyd gyda thi. A hoffet ti gerdded y daith gyda mi?*

Diolch am gyflwyno'r gwirioneddau hyn a llawer mwy yn yr oedfa arbennig hon.

Cymerwyd rhan gan y canlynol a diolch i bob un ohonynt am eu gwaith graenus dros ben: Caleb a Tudur Dylan - Darlleniadau o'r Beibl, Tomos yn darllen *Ar Noson fel Heno* gan T Llew Jones, Rhieni Capel y Priordy yn datgan *A welaist ti'r ddau* gan W Rhys Nicholas, Gwenllian a Siwan – deuawd *Ar Ddydd Nadolig* gan Delyth Lewis, a Miriam, Angharad, Beca a Gwawr yn cyflwyno gweddi. Clywyd *Ar fore Dydd Nadolig* ar ddechrau'r gwasanaeth a'r carolau canlynol: *Tua Bethlem dref, O dawel ddinas Bethlehem, Draw yn ninas Dafydd Frenin, Ganol gaeaf noethlwm ac Odlau tyner engyl.*



RHAID talu teyrnged arbennig i'n Gweinidog am lunio'r oedfa ac am yr holl drefniadau - tasg nid bychan ar adeg mor brysur yn hanes ein Gofalaeth ond bu'n werth yr ymdrech ac yn brofiad bendithiol dros ben.



CWRDD GWEDDI DECHRAU'R FLWYDDYN

Nos Fercher 4 Ionawr 2023 am 7 dros Zoom
Diolch i'n Gweinidog am drefnu'r cyfarfod

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

Aduniad Rhwng Mathew a Marc yn trafod atgofion am y Geni

Wel Mathew bach, na braf cael cwrdd,
Mae oesoedd 'di mynd heibio.
Wel Luc so ti 'di newid dim,
Na neis dy weld di eto.

Ti'n cofio, Mathew, yr holl sôn
Am eni y Meseia?
Yn cofio? Bachan! Wdw glei ...
Ac i'r manylyn lleia.

Dwi'n cofio'r noson fel tae ddoe
y ras i lenwi'r sensws,
(Pwr dab, mae wedi colli arno'i hun
rhyw side-effect o'r feirws!)

Ti'n gweld 'na broblem teulu mawr
fel teulu Dafydd Frenin -
disgwyl pawb i deithio mhell
yn ôl i'r hen gynefin.

Pwy Dafydd? Herod, oedd y bos!
Dwi'n cofio'i weld e'n benwan
yn gweiddi nes ei fod e'n goch:
'Dwi eisiau lladd pob baban!!!'

Os ti'n dweud. Wel beth am hyn?
Ti siwr o fod yn cofio
y ffws o ffeindio stafell fach
A bechod, Mair, 'di blino.

Ac ar ôl curo bron bob drws
a neb yn fodlon ateb,
daeth un lletywr - ti'n cofio fo?
yn dweud 'fe gewch chi'r preseb'.

*Sai'n cofio dim am breseb twel.
na stabal o ran hynny...
Ti'n siwr? Mae'n swnio'n le bach od
i eni un fel Iesu.*

*Ac wedyn y bugeiliaid mwyn
Yn dathlu geni'r ceidwad.
Bugeiliaid? Welais innau'r un
Nac oen, na hwrdd, na dafad.*

*Ti'n bownd o gofio nhw'r gwŷr doeth
yn dod ar gefn camelod?
Chofia'i ddim am gamel wir.
Mond defaid ac asynnod.*

*A daethon nhw ag aur a thus
A myrr, yn llawn anrhegion.
Rhyw onesie gwlân, a dymi bach
Fe fyddai hynny'n ddigon.*

*Na, cofio dim am aur, ti'n gweld,
Mond engyl lond ffurfafen
yn bwrw'u golau drwy y nos
Nid engyl, ffrind, ond seren.*

*lawn, beth pe bawn ni'n dweud fel hyn
bu'n noswyl lawn goleuni,
newidiodd popeth, - ti'n hollol iawn,
daeth gobaith, a daeth geni.*

*Manylion bach sy'n drysu dyn
mae'r craidd yn haws i'w ddimad
Y noson honno, gytunwn ni,
Daeth Crist, daeth golau cariad.*

***Darllenwyd y gerdd, o waith Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood yng
Ngwasanaeth Plygain Merched y Wawr a gynhaliwyd yn y Priordy ar Nos Sul,
11 Rhagfyr 2022***

**I'r Arglwydd cenwch llafar glod
A gwnewch ufudd-dod llawen fryd
Dowch o flaen Duw â pheraidd dôn,
drigolion daear fawr i gyd.**

**Edmwnd Prys (1544-1623)
Caneuon Ffydd 75**



Yn Rhifyn Medi 2021 cawsom erthygl ddiddorol am Edmwnd Prys gan D Cyril Jones i gofio cyhoeddi ei waith pwysig *Salmau Cân* yn 1621. Fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r Llyfr Gweddi Cyffredin awdurdodedig ar gyfer gwasanaethau yn holl eglwysi Cymru. Bellach mae emynau a phenillion Edmwnd Prys yn parhau i gael eu canu mewn gwasanaethau eglwysig ac mae dau o'i emynau wedi'u cynnwys yn *Caneuon Ffydd* a chwech yn *Emynau'r Eglwys*.

Mae'n werth troi'n ôl at yr erthygl am grynodedb o hanes bywyd a gwaith Edmwnd Prys. Bu farw ym 1623, sef pedwar can mlynedd yn ôl i eleni. Fel teyrnged iddo ar y garreg filltir nodedig hon, dyfynnwn bennill cyntaf un o'i emynau sydd yn Caneuon Ffydd (75) ar y tudalen blaen. Mae'n bennill hynod o addas i'w ddyfynnu ar ddechrau blwyddyn newydd. Mae'n ein gwahodd ni oll i ddod i adnabod ac addoli Duw, ein crêwr a'n cynhaliwr

Mydryddiad o Salm 100 yw'r emyn cyfan. Cafodd ei gweld am y tro cyntaf ym mydryddiad Edmwnd Prys o'r *Salmau* yn 1621. Teitl syml o ddiolch sydd iddo – yr unig salm sy'n dwyn y teitl hwn.

Dyma fersiwn beib.net o'r salm:

Gwaeddwch yn uchel i'r ARGLWYDD
holl bobl y byd!
Addolwch yr ARGLWYDD yn llawen;
a dod o'i flaen gan ddathlu!
Cyffeswch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw;
Fe ydy'r un a'n gwnaeth ni,
a ni ydy ei bobl e —
y defaid mae'n gofalu amdany'n nhw.
Ewch drwy'r giatiau gan ddiolch iddo,
ac i mewn i'w deml yn ei foli!
Rhowch ddiolch iddo!
A bendithio ei enw!
Achos mae'r ARGLWYDD mor dda!
Mae ei haelioni yn ddiddiwedd;
ac mae'n aros yn ffyddlon o un genhedlaeth i'r llall

COFIO RHOSWEN



Mae'n anodd. O! Mae'n anodd dweud ffarwel
Wrth gofio am haelioni'th fywyd llawn
I'th fro, a thithau yn ddiplino'n hel
Ei phlant ynghyd a meithrin lles pob dawn.
Dy weledigaeth di yw'r 'Cardi Bach,'
Dy drysor di am ddeugain mlynedd hir,
A'th arweinyddiaeth di fel awel iach
Yn chwythu 'iaith y nefoedd' trwy ein tir.
Y plant a'r bobl ifainc oedd dy fyd,
Dy gapel a dy ffydd yn ffordd o fyw,
Ac wrthi'n paratoi o hyd, o hyd,
A thithau'n llon bob amser wrth y llyw.
Mae dweud ffarwel yn anodd nawr i ni,
Mor wag Cwmfelin bellach heb-ddot ti.

Peter Hughes Griffiths

Bydd llawer o'n darllenwyr yn adnabod Rhoswen Llewellyn a gollwyd yn ddiweddar – un a wnaeth gyfraniad oes i'w milltir sgwâr ym Mro Gronw, Cwmfelin Mynach, Hendy-gwyn.

Darllenwyd y soned hon o waith Peter i gofio amdani yng Nghapel Ramoth, Cwmfelin gan Aled Gwyn.

Diolch i Peter am grynhoi nodweddion y wraig arbennig hon mor ddiwyll ac effeithiol.



NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON


Bedyddio Esyllt Wyn

Bedyddiwyd Esyllt Wyn, merch Gwenno a Guto Wyn a chwaer i Emrys ac Owain Llys Gwyn, Caernarfon. Roedd yn fore arbennig yn hanes y teulu a'r eglwys.



Addurno Salem

Bob Nadolig, Bethan Parry, gofawraig Salem fydd yn addurno'r capel bob Nadolig ac er ei bod newydd ddechrau cael triniaeth yn yr ysbyty, ei dymuniad oedd cael gwneud eto eleni. Gwerthfawrogwn ei hysbryd parod gan ddymuno iddi hi a'i theulu bob tangnefedd dros yr Ŵyl.



Drama Nadolig y Plant

Yn y ddwy flynedd diwethaf, bu'n rhaid perfformio drama'r Nadolig ar risiau'r capel oherwydd y pandemig. Eleni, cawsom ddychwelyd i'r capel a gosod y llwyfan yn y sedd fawr am y tro cyntaf ers tair blynedd. Braff oedd cael bod yn

ôl a thestun y cyflwyniad eleni oedd 'Syllu ar y Sêr'.



**GORONWY OWEN
Y CLERIGWR LLIWGAR
1723-1769**


Fe'i disgrifir gan Alan Llwyd yn ei gofiant iddo fel un o feirdd pwysicaf Cymru ac yn un o ffigyrau chwedlonol mwyaf ein llên.

Fe'i ganed ar Ddydd Calan 1723, sef tri chan mlynedd yn ôl i'r mis hwn i deulu tlawd ym mhlwyf Llanfair Mathafarn Eithaf ar Ynys Môn. Cafodd ei fedyddio ar ddydd ei eni gan awgrymu mai baban gwan ydoedd – ond fe oroesodd! Roedd yn aelod o deulu Morisiaid Môn– teulu enwog o lythyrwyr o blwyf Penrhosllugwy, yn enwedig Lewis Morris, pen-llythyrwr Llên Cymru ei gyfnod.

Aeth Goronwy i Ysgol Friars ym Mangor ble dysgodd Ladin a Groeg i safon uchel. Ymddiddorai hefyd mewn barddoniaeth. Ymaelododd yng Ngholeg yr Iesu Rhydychen er na chafodd ysgoloriaeth i'w gynnal ei hun a dihangodd oddi yno'n fuan iawn mewn dyled. Bu'n athro cynorthwyol ym Mhwlheli a Dinbych. Cafodd ei urddo'n ddiakon a bu'n gurad dros dro am gyfnod byr yn Llanfair Mathafarn. Y tair wythnos a dreuliodd yno oedd y tro olaf iddo fod ym Môn, ac yntau ond yn dair ar hugain oed. Chwerwodd yn erbyn plwyf Llanfair ac ynys ei fagwraeth. Cafodd ei ordeinio'n offeiriad yn Awst 1747.

Cafodd guradiaeth yn Selatyn yn ymyl Croesoswallt am gyfnod byr ac yna Groesoswallt ei hunan. Priododd yno am y tro cyntaf ym 1747 ond aeth i ddyled a chafodd ei garcharu am gyfnod a dihangodd o'r dref i osgoi casglwyr dyledion. Cafodd guradiaeth yn Uppington a Donnington, yn ymyl Yr Amwythig ac yna yn Walton a Northolt Llundain, ond digon afrad oedd ei fywyd erbyn hyn.

Yn ddyn siomedig iawn, yn alltud hiraethus o'i wlad a thlawd ei amgylchiadau derbyniodd swydd athro mewn ysgol ramadeg, oedd ynghlwm wrth Goleg William a Mary yn Williamsburgh yn Virginia. Bu farw ei wraig a phlentyn iddo ar y fordaith. Ailbriododd yn America ond



bu farw ei ail wraig o fewn ychydig o fisoedd. Aeth ar gyfeiliorn yn llwyr ar ôl colli'i wraig a throi'n feddwyn a byw'n afrad. Bu rhaid iddo adael ei swydd.

Treuliodd ei flynyddoedd olaf yn ôl yn ei hen alwedigaeth fel person plwyf St Andrew Swydd Brunswick, ym mhellafion Virginia. Llwyddodd i brynu darn o dir, codi tŷ pren (sydd ar ei draed o hyd yn Dolphin, l'r gogledd o dref Lawrenceville) a throi rhannau o'r tir yn blanhigfa, gyda chymorth caethweision, a dechrau tyfu baco i chwyddo'i incwm. Mae'n debygol fod arian wedi dod iddo ar ôl colli'i wraig i'w alluogi i brynu'r tir. Priododd am y trydydd tro. Yma y treuliodd Goronwy weddill ei ddyddiau yn magu teulu, yn goruchwyllo'i blanhigfa ac yn gweinidogaethu i'w blwyfolion. Er ei fod yn fwy cyfforddus ei fyd erbyn hyn, ni lwyddodd i lacio gafael y ddiod arno o gwbl. Bu farw yn Brunswick yn 1769 a'i gladdu ar ei blanhigfa yn Dolphin.

Bywyd cynhyrfus, a dweud y lleiaf, a gafodd Goronwy Owen, rhwng ymladd yn erbyn tloedi a wynebu trasedïau personol, iselder ysbryd ac alcoholiaeth.

'Maen nhw'n dal i gofio Goronwy Owen yn yr Unol Daleithiau - ond nid yn gymaint am ei farddoniaeth ond ei afradlonedd,' medd.

Grahame Davies. Yn Williamsburg yn Virginia mae cofebau iddo, cyhoeddiadau amdano a digwyddiad blynyddol er cof amdano. Mae cofeb iddo yn Eglwys y Santes Fair, Northolt, Llundain ac yn nes adre yn Eglwys Gadeiriol Bangor. A chawn ein hatgoffa gan Meic Stephens fod un o ddisgynyddion Goronwy Owen yn syflaenydd y cwmni Interflora!

Yng Nghymru, caiff Goronwy ei gofio gyda hoffter a pharch heddiw gan y rhai sy'n caru llenyddiaeth Gymraeg. Cyfrannodd at adfywio'r diwylliant llenyddol Cymraeg yng nghanol y ddeunawfed ganrif o'i dirywiad yn dilyn ymseisnigo noddwyr traddodiadol y beirdd, sef y bonedd Cymreig. Credai y gellid ailddenhongi'r mesurau caeth traddodiadol ar gyfer testunau cyfarwydd ei oes - yn lle awdlau a chywyddau'n moli'r uchelwyr cyfansoddi cerddi ar themâu fel hiraeth a



myfyrdodau ar y bywyd Cristnogol. Rhoddodd ei fryd ar gyfansoddi epig yn Gymraeg Ei uchelgaïs mawr oedd cyfansoddi cerdd epig Filtonaidd yn y Gymraeg ond ni lwyddodd i wneud hynny.

Mae llythrau Goronwy Owen, er enghraifft at y Morisiaid, ei gyn-noddwyr, yn llawn o ryddiaith ardderchog ond mae'n fwyaf enwog am ei gerddi am Sir Fôn.

Cyfansoddodd drosiad o emyn Saesneg gan Samuel Collet i'r Gymraeg, ond fel y dywed E Wyn James yn Y Traethodydd: 'Nid oedd hoffter Goronwy Owen o eiriau dieithr a hynafol o fantais iddo fel awdur deunydd ar gyfer canu cynulleidfaol.'

Beth am orffen felly gydag englyn o un o'i awdlau y mae'r cwpled olaf, sef yr esgyll, yn dal i gael ei ddyfynnu hyd heddw – englyn sy'n cyfleu'i hiraeth ingol am ei ferch a gollwyd ar y fordaith i America:

**Mae cystudd rhy brudd i'm bron – hyd f'wyneb
Rhed afonydd heilltion;
Collais Elin, liw hinon,
Fy ngeneth oleubleth, Ion.**

CANOLFAN GALW-I-MEWN CAPEL Y BEDYDDWYR SAESNEG

***Casglwyd £220 mewn casgliad rhydd ar
Sul 4 Rhagfyr 2022 ar gyfer helpu'r Ganolfan i baratoi Cinio
Nadolig a Danteithion ar gyfer anffodusion ein tref***



***Diolch eto i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans,
ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.***



YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

**Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd**

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk

DIOLCH YN FAWR

**Diolch i Beti-Wyn, Tudur Dylan Jones, Tomos Huw a Lleucu
Edwards am y lluniau'r mis hwn.**





CWIS Y SALMAU

Pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau? Yn hytrach, pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau yn fersiwn beibl.net?!!!!

Llanwch y Bylchau! Ceisiwch ddyfalu! Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!

SALM 23

Yr ARGLWYDD ydy fy mugail i;
mae gen i ----- dw i angen.

Mae'n mynd â fi i orwedd mewn -----hyfryd;
ac yn fy arwain at ddŵr glân sy'n llifo'n dawl.

Mae'n rhoi bywyd newydd i mi,
ac yn dangos i mi'r ---- iawn i fynd.

Mae e'n ----- am ei ofal.

Hyd yn oed mewn ----- tywyll dychrynlyd,
fydd gen i ddim ofn, am dy fod ti gyda mi.

Mae dy ffon a dy bastwn yn fy ----- i.

Rwyt ti'n ----- gwledd i mi
ac mae fy ngelynion yn gorfod -----.

Ti'n ----- olew ar fy mhen.

Mae gen i fwy na digon!

Bydd dy ddaioni a dy ofal -----
gyda mi weddill fy mywyd.

A byddaf yn byw eto yn nhŷ'r ARGLWYDD
am byth.

Atebion ar Dudalen 35



ROTA DARLLENWYR BORE SUL 2023



Ionawr	1		Gorffennaf	2	Heledd Mai Jones
	8	Y Plant		9	Sul y Cyfundeb
	15	Elinor W Reynolds		16	Peter H Griffiths
	22	Elis Jones		23	June Thomas
	29	Catrin Heledd Jones		30	
Chwefror	5	Elen Marks	Awst	6	
	12	Myfanwy Jones		13	
	19	Huw Michael		20	
Gŵyl Dewi	26	Y Plant		27	Y Parch Ddr Desmond Davies
Mawrth	5	Carys Morgans	Medi	3	Y Plant
	12	Gill Owens		10	Meleri LI O'Leary
Sul y Fam	19	Y Mamau		17	Heledd Tomos
	26	Philip Jones		24	Gŵyl Mawl Medi
Ebrill Sul y Blodau	2	PIP	Hydref	1	Y Plant
Sul y Pasg	9	Jayne Woods		8	Angharad Wyn
	16	Yr Aelodau		15	Lleucu Edwards
	23	Miriam Wyrwoll		22	Catrin Mair Jones
	30	Gareth Gravell		29	Yr Aelodau
Mai	7	Ffion Parsons	Tachwedd	5	Y Plant
	14	Y Plant		12	Eirlys Davies
	21	Tim Hayes		19	Alwen Owen
	28	Luned V Thomas		26	Sulwyn Thomas
Mehefin	4	Delyth G Davies	Rhagfyr	3	Meinir Jones
	11	Y Plant		10	Oedfa Nadolig (PM)
Sul y Tadau	18	Pererindod	Cana (Gofalaeth)	17	Alun Charles
	25	Alison Parsons	Oedfa Ddigidol	24	Yr Aelodau
			Bancyfelin (Gofalaeth)	31	

A wnewch chi frwr golwg dros y rhestr hon, os gwelwch yn dda, a chyfnewid dyddiad gyda pherson arall os nad yw'r Sul yn gyfleus i chi a rhoi gwybod i'r Gweinidog. Llauer o ddiolch

CWIS Y SALMAU beibl.net ATEBION			
1	bopeth	6	addiffyn
2	porfa	7	paratoi
3	ffordd	8	gwyllo
4	enwog	9	tywallt
5	ceunant	10	ffyddlon
Gallwch hefyd droi at beibl.net			

**Menopos?
Paned?**

Ymdopi mewn cwmni.
Ymunwch â ni
am baned
a sgwrs Gymraeg gyfeillgar

Nos Lun, 9 Ionawr 2023
am 6 o'r gloch
yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg,
Caerfyrddin

Manylion pellach -
Meleri: pentremeurig7@sky.com
Alison: Alison683@btinternet.com
Beti-Wyn: beti.wyn@icloud.com







COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD




YN DYMUO CYFAMODI?

DENNIS JONES
YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI


Croeso i chi gysylltu ag e!



DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



Ionawr		Chwefror	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Alun Charles	Adrian Evans	Gwynfor Davies	Philip Jones



BLODAU



Ionawr	1	Catrin H Jones	Chwefror	5	
	8			12	Ann Bowyer
	15	Janet Davies		19	
	22			26	Gill Owens
	29	Glenys Thomas			



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Ionawr	1	Bore	Alison Parsons a Ffion Parsons
Chwefror	5	Bore	Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones



DARLLENWYR



Ionawr	1	Oedfa Deulu	Chwefror	5	Elen Marks
	8	Y Plant		12	Myfanwy Jones
	15	Elinor W Reynolds		19	Huw Michael
	22	Elis Jones		26	Y Plant
	29	Catrin H Jones			



CYHOEDDWYR



Ionawr	Jayne Woods	Chwefror	Adrian Evans
--------	-------------	----------	--------------

Y DIWEDDAR DESMOND HAYES

Bu farw Des yn dawel yn Ysbyty Glangwili ar ddydd Sul, 11 Rhagfyr 2022 ar ôl bywyd llawen a llawn. Yn enedigol o Landdewi-felfre ac yn meddu ar allu academaidd disglair aeth i Brifysgol Aberystwyth a hynny'n arwain at yrfa ryfeddol ym myd ymchwil a bridio ceirch – gyrfa a ddaeth ag e i adnabyddiaeth fyd-eang yn ei faes. Teithiodd yn helaeth gan dreulio cyfnodau dramor yn astudio a darlithio. Arweiniodd ei ysgolheictod at ei benodi'n Athro Amaethyddiaeth Prifysgol Aberystwyth.

Bu Des a Nansi yn hynod o weithgar yn eu cymuned yn Y Borth, a cholled Y Borth oedd ennill Caerfyrddin wrth iddynt symud i'r dref ddeng mlynedd yn ôl gan ymaelodi â ni yn Y Priordy. Yn wir, mae'n teimlo fel petai'r ddau wedi bod gyda ni erioed gan iddynt ymdoddi i fywyd yr eglwys a'r gymuned mor naturiol. Bu Des yn ffyddlon i bob agwedd ar waith yr eglwys, gan ymuno â'r oedfa dros zoom yn ddiweddar. Bendithiwyd ni yn Y Priordy, fel yn y meysydd eraill y bu'n ymwneud â nhw, â'i bresenoldeb hawddgar, ei ffyddlondeb a'i ddoethineb mawr.

Does dim amheuaeth bod Des wedi gadael ei ôl yn drwm ar fydd Amaethyddiaeth academaidd, ac ar genedlaethau o fyfyrwyr. Cofir gyda diolchgarwch am ei waith. Ond bu'n fawr ei ddylanwad hefyd ymhlith rhengoedd ei deulu. Bu'n âr cariadus i Nansi ac yn dad, tad-ynghyfraith a thad-cu uchel iawn ei barch a mawr ei gariad. Roedd Des ym meddwl y byd o'i deulu a'i deulu yn meddwl y byd ohono fe.

Yn dilyn oedfa fer ar yr aelwyd a chladdedigaeth ym mynwent Capel Bethel, Llanddewi-felfre ar ddydd Mercher, 22 Rhagfyr, daeth cynulleidfa niferus ynghyd i Gapel Y Priordy i oedfa o ddiolchgarwch am ei fywyd a'i waith. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan Y Parchgn John Tudno Williams, Alun Tudur ac Evan Morgan. Roedd y gwasanaeth yng ngofal ei weinidog.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Nansi, Sharon, John, Mike a Tim a'u teuluoedd. Gweddïwn y bydd i Dduw sancteiddio'r atgofion hyfryd sydd ganddynt ohono fel y byddant yn gysur ac yn fendith iddynt. A boed i ni oll efelychu'r pethau da ym mywydau'r rhai a aeth o'n blaen.

Bonheddwr wrth natur. Cristion trwy ras.

Beti -Wyn



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Mae Dan Evans wedi symud i Gartref Gofal Parc Wern, Rhydaman erbyn hyn. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Tybed a glywsoc'h Sylvia Davies yn cael ei holi ar **Beti a'i Phobl** ar **Radio Cymru** yn ddiweddar? Bydd nifer yn cofio'i rhieni, Gwen a Ieuan Davies. Cawsom holi Gwen, un o'n haelodau, ym Mhapur Priordy, yn ôl yn 2010, am ei chasgliad cynhwysfawr o lestri Portmeirion. Mae Sylvia bellach yn dilyn llawer o ddiddordebau'i mam ac yn entrepreneur yng Nghaerdydd. Mae wedi sefydlu cwmi, *Eto Eto* sy'n ailddefnyddio cynhyrchion sydd wedi torri gan eu trwsio a'u gwerthu unwaith yn rhagor.



Awdur y sgript ar gyfer sioe newydd sbon Ysgol Gyfun Gymraeg Ystalyfera, *Shwd Ma'i yr Hen Ffrind* oedd Tudur Dylan Jones. Mae'r sioe'n seiliedig ar ganeuon Huw Chiswell, un o gyn-ddisgyblion yr ysgol, llawer ohonynt yn glasuren erbyn hyn.

Yn ôl y canlyniadau diweddaraf i gael eu rhyddhau o Gyfrifiad 2021, roedd 'na fwy o gwmp yn y nifer sy'n dweud eu bod yn Gristnogion yng Nghymru nag oedd yna drwy Gymru a Lloegr i gyd. Degawd yn ôl roedd 57.6% yn ystyried eu hunain yn Gristnogion, ond mae hynny wedi gostwng 14 pwynt canran i 43.6% yn 2021. Wrth ymateb i'r ystadegau, dywdodd y Parchedig Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymru, fod y ffaith fod cynifer o gapeli ac eglwysi wedi cau dros y degawd diwethaf yn "dyst gweladwy" i'r gostyngiad, wrth i gymdeithas droi'n fwy seciwlar. 'O ystyried hynny, mae'n ffaith ryfeddol bod miliwn a chwarter o bobl Cymru'n dal i alw eu hunain yn Gristnogion,' meddai wrth **golwg360**. 'Mae'n amlwg bod miloedd di-ri o bobol nad ydynt mwyach yn mynychu addoldy yn dal i deimlo teyrngarwch tuag at grefydd fore oes trwy ddisgrifio eu hunain fel Cristnogion ar ffurflen y Cyfrifiad. "Mae'n eithaf tebyg hefyd bod nifer o'r rhai ddywedodd nad ydynt bellach yn dilyn unrhyw grefydd yn dal i fod o dan ddylanwad capel, eglwys ac Ysgol Sul. Bydd rhaid i'r grefydd Gristnogol farw allan yn llwyr yng Nghymru cyn bod y dylanwad yna'n darfod. Hyderwn na fydd hynny fyth yn digwydd.'

Ein llongyfarchiadau i nifer o'n pobl ifainc sydd wedi rhagori mewn cystadlaethau siarad cynhoeddus yn ddiweddar, sef Tomos Morgans (CFFl Penybont), Gwenllian Jones (CFFl LLanarthne) a Heledd a Rhiannon Jones (CFFl Dyffryn Tywi). Da iawn chi!

Bu Elinor W Reynolds ar **P'nawn Da** ar **S4C** yn gwneud '*Fi mewn tri*', sef dewis tri gwrthrych sy'n ei chynrychioli. Dewisodd ben elfiffant (tegan) sy'n hongian ar wal Syfi i gynrychioli'r teulu nawr, cwpan Eisteddfod Genedlaethol Bro Myrddin 1974 i gynrychioli'r teulu pan ddaethant i Gaerfyrddin a'i llyfr ysgrifennu nodiadau ble mae'n sgrifennu'i cherddi a chadw'i holl syniadau. Ac un o'r panelwyr yn trafod penawdau newyddion y dydd ar **Dros Ginio** ar **Radio Cymru** yn ddiweddar oedd Rebecca Hayes.

Ar ddydd Nadolig eleni bu **Gorsaf Radio Ysbyty Glangwili** yng Nghaerfyrddin yn dathlu hanner canrif ers ei darllediad cyntaf. Mae llywydd presennol yr orsaf, Sulwyn Thomas, wedi bod ynghlwm â'r fenter ers y cyfnod hwnnw. Ar **bbc cymru fyw** bu sgwrs gyda Sulwyn i glywed mwy o'r hanes. Hefyd, mae'n siŵr bod nifer ohonoch wedi darllen y llyfryn lliwgar arbennig a gyhoeddwyd i ddathlu'r achlysur – **50 Radio Glan Gwili**. Yn ogystal, bu rhaglen ar **Radio Cymru - Radio 'sbyty; Codi Calon Claf** gyda Huw Stephens pan fu Sulwyn ac eraill yn olrhain hanes y fenter.



I GLOI, dymunwn yn dda i ddau o'n haelodau sy'n dathlu pen-blwydd arbennig cyn bo hir - **Non Davies (29 Ionawr 2023)** ac **Eira Phillips (4 Chwefror 2023)**. Pen-blwydd hapus iawn i'r ddwy ohonoch oddi wrth bawb yn y Priordy!

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Chwefror i'n Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Phillip Jones ar golli'i ewythr, sef Idwal Jones, Porthyrhyd House, Trawsmawr, Caerfyrddin, ar 26 Tachwedd 2022. Cofiwn am ei briod, Doreen, a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

Cydymdeimlwn hefyd â Catrin David Jones ar golli'i modryb, sef Elonwy Ann David, Cartref Gofal Castell Tywi a chynt o'r Wern, Heol Dinbych-y-pysgod, Sanclêr, ar 6 Rhagfyr 2022. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu galar.

Tristwch oedd clywed am golli un o'n haelodau, sef Christine O'Halloran (Davies gynt), Dôl yr Abaty, Caerfyrddin ar 16 Rhagfyr 2022. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i phriod, Seamus, a'r teulu yn eu galar. Bydd teyrnged i Christine yn ein rhifyn nesaf.



Y SULIADUR



Ionawr	1	Bore	Oedfa Deulu ar gyfer yr Ofalaeth	C
	8	Bore	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog	
	15	Bore	Y Parchedig Aled Edwards	
	22	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Cynhelir Cwrdd Eglwys wedi'r oedfa Oedfa dan nawdd Cytûn yn Eglwys Tywi am 5.00 ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol	
	29	Bore	Ein Gweinidog	

Chwefror	5	Bore	Ein Gweinidog	C
	12	Bore	Ein Gweinidog	
	19	Bore	Ein Gweinidog	
Dathlu Gŵyl Dewi	26	Bore Hwyr	Gwasanaeth Plant yn y Priordy am 10 Oedfa Gymun yn Elim am 5	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu GGD- Gwasanaeth Gŵyl Dewi								
Ionawr					Chwefror			
1	8	15	22	29	5	12	19	26
OD	CP	✓	✓	✓	✓	✓	-	GGD

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen



DALIER SYLW
Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r
Suliadur mewn da bryd

